



Astudiaeth 'Well i mi'

Lles, iechyd a ffitrwydd plant gydag amhariadau symudedd (Well i mi)

Fedrwch chi ein helpu drwy ddweud beth ydych chi'n ei feddwl am gadw'n heini?



11-18 oed

www.wellmi.bangor.ac.uk

Beth ydi'r Astudiaeth Well i mi?

Bwriad yr astudiaeth Well i mi ydi cynllunio gweithgareddau cadw'n heini llawn hwyl i blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.



Rydym eisiau gofyn i chi:

Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig cadw'n heini?

A ydych yn hoffi cymryd rhan mewn gweithgareddau cadw'n heini?

Pa bethau llawn hwyl hoffech chi eu gwneud i gadw'n heini?

Sut allwn ni fesur eich ffitrwydd?



Llinos Haf Spencer
Swyddog Ymchwil Astudiaeth Well i mi

Pam rydw i wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan?

Gofynnwyd i chi gymryd rhan oherwydd eich bod yn defnyddio cadair olwyn.

Beth fydd yn digwydd os bydda i eisiau cymryd rhan?

Os byddwch eisiau cymryd rhan, byddwn yn gofyn cwestiynau tebyg i'r rhai uchod i chi a byddwn yn recordio'r hyn fyddwch yn ei ddweud efo recordydd llais ac, os ydi hynny yn iawn, efo recordydd fideo hefyd.

Lle fydd rhaid i mi fynd i gymryd rhan?



- Os byddwch eisiau cymryd rhan mewn cyfweiliad ar eich pen eich hun ac nid mewn cyfweiliad grŵp, bydd Llinos yn dod i'ch cartref i siarad efo chi (a'ch rhieni).



- Os byddwch eisiau cymryd rhan mewn cyfweiliad grŵp, bydd Llinos yn siarad efo chi a phobl eraill (a fydd tua'r un oed â chi) mewn grŵp yn rhywle agos at eich cartref (fel canolfan hamdden). Byddwn yn talu eich costau teithio.

Fedrwch chi ein helpu ni eto?

Mae yna ddwy ran arall i'r astudiaeth Well i mi. Byddem yn hoffi i chi gymryd rhan yn y ddwy ran arall hefyd, ond gellwch benderfynu hynny y tro nesaf y byddwn yn cysylltu efo chi.

Fydda i'n cael rhywbeth am gymryd rhan?

Os cymerwch ran mewn cyfweiliad neu grŵp trafod, byddwch yn cael tocyn 'diolch' £15 bob tro. Gellwch ddewis High Street Vouchers **neu** docynnau iTunes®.



**Love2shop
High Street Vouchers**



**iTunes®
gift vouchers**

Eich diogelwch

Os byddwch yn dweud rhywbeth wrthym ni sy'n gwneud i ni bryderu llawer am eich diogelwch, bydd rhaid i ni wneud yn siŵr eich bod yn aros yn ddiogel drwy ddweud wrth rywun arall efallai.

Ydych chi eisiau cymryd rhan?

Os hoffech chi gymryd rhan yn yr Astudiaeth Well i mi

- llenwch y ffurflen gysylltu ar bapur neu'r ffurflen gysylltu ar y wefan Well i mi
- ffoniwch Llinos neu anfonwch e-bost ati

Unrhyw gwestiynau?

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am yr astudiaeth cyn penderfynu a ydych am gymryd rhan, gellwch ffonio Llinos, anfon e-bost ati neu ysgrifennu ati gan ddefnyddio ffurflen gysylltu.



Ffoniwch neu e-bostiwch Llinos i gymryd rhan

Dr Llinos Spencer

Swyddog Ymchwil, Astudiaeth Well i mi
Canolfan Iechyd Gysylltiedig ag Iechyd
Fron Heulog, Ffordd Ffriddoedd
RHADBOST BG35
Bangor, Gwynedd
LL57 2BR

Ffôn: 01248 38 3171

E-bost: L.Spencer@bangor.ac.uk

Gwefan: <http://wellmi.bangor.ac.uk>



Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i unrhyw bryderon am yr astudiaeth na all y tîm ymchwil eu hateb?

Os oes gennych unrhyw bryderon am yr astudiaeth, cysylltwch â:

Dr Malcolm Godwin

Pennaeth yr Ysgol Gwyddorau Gofal
Iechyd, Prifysgol Bangor,
Fron Heulog, Ffordd Ffriddoedd
Bangor, Gwynedd, LL57 2EF
Ffôn: +44 (0)1248 38 3117
E-bost: m.godwin@bangor.ac.uk

Astudiaeth Well mi
Cam 1
Taflen wybodaeth i blant 11-18 oed
Grŵp ffocws/cyfweliad
Fersiwn 2. Dyddiad 20/08/13